Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **Ddydd Iau, 28 Mai** am 3.30pm trwy fideo gynadledda.

**Presennol**

Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mr Jason Davies
Mrs Laura Gough
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Claire Homard
Mr Kieran Irwin
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Sprake
Mr David Subacchi

**Swyddogion:** Mr David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mrs Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-ganghellor)*
Mr Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*

**Hefyd yn bresennol:** Mrs Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*

| | | |
|---|---|---|
| **19.69** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.<br><br>Cyflwynodd yr aelodau eu hunain a chadarnhaodd y Cadeirydd y protocol ar gyfer cyfarfod ar-lein.<br><br>Diolchwyd i Kieran Irwin am ei gyfraniad i'r Bwrdd gan mai hwn oedd ei gyfarfod Bwrdd olaf fel Llywodraethwr cyn i'w gyfnod yn y swydd ddod i ben ar 30 Mehefin. Byddai'n cael ei wahodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf fel arsylwr fel rhan o'r trosglwyddo i'r swyddogion sabothol newydd. Llongyfarchwyd Ebony Banks ar gael ei hethol yn Llywydd yn weithredol o 1 Gorffennaf 2020 ac roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at gyfarfod yr Is-lywydd newydd ei ethol, Chloe Williams. | |
| **19.70** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau o ran unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **19.72** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Fod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020 yn gofnodion gwir a chywir y cyfarfodydd hynny. | |
| **19.73** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Darparwyd adroddiad materion yn codi gan y Clerc.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-ganghellor sylw, o ran cydweithredu strategol, fod Bwrdd Gweithredol yr Is-ganghellor wedi nodi meysydd ychwanegol potensial ar gyfer cydweithredu gyda Phrifysgol Bangor o ra Ymchwil a Datblygu a'r Celfyddydau/Iechyd. Bwriedir bwrw ymlaen gyda hyn unwaith y bo cyfarfodydd wedi'u haildrefnu. Trefnwyd cyfarfod drwy gyfrwng Microsoft Teams gyda Choleg Cambria ymhen pythefnos i drafod mentrau cydweithredu. Roedd yr Is-ganghellor wedi bod yn cadw mewn cysylltiad gydag Is-ganghellor Prifysgol Bangor a Phrif Weithredwr Coleg Cambria fel rhan o'i sesiynau 'dal i fyny' yn y rhanbarth a'r sector.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.74** | **Adroddiad yr Is-ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ysgrifenedig gan yr Is-ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-ganghellor sylw at bwyntiau allweddol ei hadroddiad ysgrifenedig yn ymwneud â chymorth ariannol potensial i brifysgolion ar lefel y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru. Petai unrhyw gymorth grant yn dod gan Lywodraeth Cymru roedd yn debygol o fod yn ad-daladwy ond heb gostau llog. Nid oedd yn glir eto sut y byddai'r Gronfa Ailstrwythuro/Trawsnewid i'r Deyrnas Unedig gyfan yn cael ei defnyddio na sut i ymgeisio am arian o'r gronfa.<br><br>Gobeithiwyd cael rhagor o eglurder ynghylch y mesurau cyfyngiadau symud gan Lywodraeth Cymru'n fuan, ac na fyddai hyn yn ehangu'r bwlch o ran y mesurau sy'n bodoli yn Lloegr. Roedd Prifysgolion y Deyrnas Unedig yn bwriadu cyhoeddi fframwaith egwyddorion adfer ar ôl Covid yn ystod wythnos gyntaf Mehefin i brifysgolion ei addasu ar gyfer eu lleoliadau eu hunain. Rhannwyd drafft gynnar y fframwaith gyda Thîm Gweithredol yr Is-ganghellor ac nid oedd yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl.<br><br>Mae'r Brifysgol yn parhau i gyfathrebu gyda myfyrwyr yn cadarnhau fod cynllunio'n digwydd ar gyfer dechrau ym mis Medi, yn unol â gweddill y sector. Byddai'r cyfathrebu'n cael ei ddatblygu dros amser i ddarparu sicrwydd ynghylch diogelwch y campws a sicrhau profiad y myfyriwr mewn fformat wedi'i ailddychmygu.<br><br>Roedd y cyfnod cwarantin pythefnos o hyd ar gyfer pobl yn cyrraedd y Deyrnas Unedig o dramor, yn cynnwys dinasyddion y Deyrnas Unedig yn dychwelyd, wedi derbyn peth beirniadaeth yn rhannol am ei fod yn creu risg o atal myfyrwyr rhyngwladol rhag dechrau eu hastudiaethau mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig. Roedd paratoadau'n cael eu rhoi yn eu lle i fodloni'r gofynion cwarantin ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n teithio o dramor i ddechrau eu hastudiaethau yn y Brifysgol.<br><br>Nododd yr aelodau fod niferoedd arwyddocaol o staff y Brifysgol sy'n byw yn Lloegr ond a fyddai'n cael teithio i Gymru i weithio. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb gwybod nifer y staff dan sylw. | **PG** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.75** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-ganghellor am ei briffiadau rheolaidd ac am weld y diweddariadau a ddarparwyd i'r staff yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Is-ganghellor a'r Clerc hefyd, wedi cynhyrchu Flog ar gyfer Sgwrs y Campws a byddai'n cynhyrchu Flog arall yn dilyn cyfarfod y Bwrdd.<br><br>Roedd wedi bod yn rhan o gynhadledd ar-lein y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ym mis Ebrill a byddai'n ymuno mewn rhagor o ddigwyddiadau'r Pwyllgor ym Mehefin a Gorffennaf. Roedd y rhain yn rhoi cyfleoedd i rannu arferion llywodraethu yn ystod y cyfnod clo ledled y Deyrnas Unedig. Roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi cyfarfod ar sawl achlysur yn cynnwys unwaith gyda Gweinidog Addysg Cymru a theirgwaith gyda Chadeirydd y Cyngor a Phrif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).<br><br>Roedd CCAUC wedi ffurfio tri grŵp 'edrych i'r dyfodol' i ymdrin â'r: cyfnod dod allan o'r cyfyngiadau symud, atgyfnerthu ac eiriol galluoedd prifysgolion Cymru a chyfleoedd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi cyngor diogelwch ar gyfer prifysgolion Cymru'n fuan ynghylch dod allan o'r cyfyngiadau symud.<br><br>Roedd cyllideb ddangosol CCAUC ar gyfer y sector Addysg Uwch tua 10% yn llai na'r hyn a ddisgwyliwyd.<br><br>Nid oedd Cod newydd y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion wedi'i gyhoeddi eto ac roedd y Pwyllgor wedi penodi Cadeirydd newydd, Michael Queen, sy'n Gadeirydd y Bwrdd ym Mhrifysgol Surrey.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad llafar y Cadeirydd. | |
| **19.75** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad a diolchodd i'r llywodraethwyr am y gefnogaeth a'r cyngor a dderbyniodd ganddynt tra'n gwasanaethu fel llywodraethwr.<br><br>Tynnodd sylw at yr etholiadau diweddar a arweiniodd at benodi Ebony Banks yn Llywydd a nododd fod 5 swydd rhan amser i'w llenwi. Roedd cynrychiolydd FAST yn bodoli tan fis Medi pan fyddai is-etholiadau'n cael eu cynnal i benodi cynrychiolydd newydd o fis Hydref ymlaen.<br><br>Yn y sefyllfa gyfredol roedd rôl yr Undeb Myfyrwyr wedi canolbwyntio ar wrando ar fyfyrwyr a'u cyfeirio at y gwasanaethau a'r bobl gywir yn y Brifysgol i ddarparu'r cymorth gofynnol iddynt. Roedd yr ymgysylltu hyn yn cynorthwyo'r Undeb Myfyrwyr gyda datblygu eu strategaeth.<br><br>Byddai Grŵp Cynghori Myfyrwyr newydd, dan arweiniad yr Is-lywydd, yn gofyn am farn myfyrwyr, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ynghylch cynlluniau i ailddychmygu'r profiad myfyrwyr o fis Medi 2020. Bu ymgysylltu da gyda'r grŵp hwn hyd yma. Amlinellodd yr Is-lywydd ei maniffesto fel Llywydd.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R adroddiad. | |
| **19.76** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 30 Ebrill 2020.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnu sylw at y newid yn y sefyllfa rhwng Chwefror, pan adroddwyd am sefyllfa diwedd blwyddyn ariannol gyda gwarged net, i'r sefyllfa gyfredol o ragfynegiad diffyg net o -£352K yn erbyn gwarged yn y gyllideb o £692k. Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o effaith sefyllfa coronafeirws, a oedd wedi arwain at ddiwygio'r alldro a ragfynegwyd. Roedd y lefel incwm is wedi'i gydbwyso'n rhannol yn dilyn gwaredu'r tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin a lleihad yn y llog darpariaeth pensiwn. Yr elw £436k cydnabyddedig o waredu'r tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin oedd y gwahaniaeth rhwng gwerth y safle ar y daenlen a'r cyfalaf a dderbyniwyd, ac roedd yn eitem ac eithrio arian parod yn y Datganiad o Incwm Cyfunol.<br><br>Roedd costau staffio a swyddi gwag yn cael eu rheoli'n dda, gyda thanwariant ac arbedion ychwanegol trwy roi staff ar ffyrlo, ond yn erbyn hyn roedd costau ymlacio'r hawl i wyliau blynyddol lle byddai staff yn cael cario gwyliau ychwanegol drosodd i 2020/21. Roedd y gwariant cyfalaf yn unol â'r disgwyliadau, o gofio fod rhaglenni cyfalaf wedi eu hoedi ar hyn o bryd. Roedd y cyfamodau banc yn cael eu bodloni ar hyn o bryd er efallai na fyddai hynny'n wir ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd AIB wedi cadarnhau na fyddent yn mynnu fod benthycwyr yn cydymffurfio gyda chyfamodau yn awr, ond nid oeddynt wedi cadarnhau eu safiad y tu hwnt i fis Gorffennaf.<br><br>Roedd y sefyllfa llif arian yn gwella, heb unrhyw ofyniad wedi'i ragfynegi i ddefnyddio cyfleusterau cyfalaf gweithiol, na'r gorddrafft banc dros dro roedd Barclays wedi'i gynnig, tan Ionawr 2021. Rhagfynegwyd y byddai'r balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol, ond yn is na'r gyllideb wreiddiol. Disgwylir i ddarpariaeth gydweithredol oresgyn y lefelau incwm yn y gyllideb.<br><br>Roedd perfformiad y ddau is-gwmni wedi cael ei niweidio gan golli incwm yn ystod y pandemig coronafeirws.<br><br>Roedd yn bosibl y gallai gwariant cyffredinol leihau, yn dibynnu pryd roedd gweithgareddau ar y campws yn ailddechrau.<br><br>Roedd y sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol a ragfynegwyd yn siomedig yn dilyn yr adferiad ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd y Tîm Gweithredol yn gweithio'n galed i reoli'r sefyllfa.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.77** | **Paratoi cyllideb 2020/21** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar baratoi a'r ystyriaethau'n gysylltiedig â chyllideb 2020/21.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn gofyn am arweiniad gan y Bwrdd ynghylch yr ystyriaethau allweddol ar gyfer cyllideb 20/21, a allai fod yn anodd trwy gyfrwng fideo gynadledda. Felly, gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno eu barn i'r Clerc erbyn dydd Mercher, 3 Mehefin, i'w cynnwys yn y trafodaethau yn y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a fyddai'n cael ei gynnal i edrych ar dybiaethau'r gyllideb. | **PAW B** |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol bennu a chyflwyno cyllideb ar gyfer 2020/21 a rhagfynegiadau ar gyfer 2021/22 erbyn diwedd Gorffennaf. Roedd yn debygol iawn y byddai angen adolygu'r gyllideb yn yr hydref i ystyried nifer y myfyrwyr.<br><br>Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dynnu sylw at nodweddion allweddol a thybiaethau sail modelu'r gyllideb cyn sefyllfa coronafeirws, a fyddai wedi arwain at warged net o £863K ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y diwygiadau'n ystyried effaith coronafeirws yn dangos yr amrywiad rhwng y modelu gwreiddiol a'r modelu diwygiedig, gyda gwarged net arwyddocaol is. Byddai'n hanfodol bwysig na fyddai penderfyniadau a wneir yn awr ac yn<br>2020/21, i sicrhau cynaliadwyedd parhaus y Brifysgol, yn arwain at effaith negyddol i'r Brifysgol y tu hwnt i 2021 pan ddisgwylid i nifer y myfyrwyr wella, yn rhannol oherwydd cynnydd yn nifer yr unigolion 18 oed, ynghyd â chynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol.<br><br>Roedd y papur yn amlinellu'r sefyllfaoedd a fodelwyd a'r mesurau lliniaru potensial. Nid oedd yn hysbys ar hyn o bryd a fyddai unrhyw gymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig.<br><br>Nodwyd fod y Brifysgol wedi cyflwyno sefyllfa ariannol achos gwaethaf i CCAUC ar 20 Ebrill i hysbysu ei adroddiad i Lywodraeth Cymru ar effaith potensial y sefyllfa coronafeirws ar y sector. Roedd angen cyflwyno hyn ymhen 24 awr ac ni fu'n bosibl rhannu'r wybodaeth gyda'r Bwrdd ymlaen llaw. Pan rannwyd yr wybodaeth gyda Llywodraeth Cymru gwnaed hynny ar lefel y sector, nid lefel sefydliadau. Roedd y sefyllfaoedd heb eu lliniaru'n bennaf, ac roedd y data a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cynrychioli dadansoddiad wedi'i ystyried yn fanylach o ran y sefyllfaoedd potensial, a ddatblygwyd o'r ystadedau dechreuol a anfonwyd i CCAUC.<br><br>Nodwyd fod CCAUC wedi gofyn i brifysgolion Cymru gynnwys set o dybiaethau yn y rhagfynegiadau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.78** | **Adolygiad Llywodraethu yng Nghymru** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru<br>(ii) Ymrwymiadau i Weithredu – cynllun gweithredu'r brifysgol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad yn nodi'r broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun gweithredu drafft, y bu'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n craffu arno.<br><br>Disgwylir i sector prifysgolion Cymru fabwysiadu'r Siarter a chymryd perchnogaeth yr ymrwymiaau gweithredu, ond byddai rhoi'r olaf ar waith yn cael ei fonitro gan CCAUC. Byddai angen i'r Brifysgol gynnwys adroddiad ar y cynnydd o ran rhoi'r gweithredoedd ar waith yn ei adroddiad blynyddol.<br><br>Roedd rhai gweithredoedd yn ddibynnol ar gyrff eraill yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r canlyniad gofynnol h.y. Cadeiryddion Prifysgolion Cymru, Prifysgolion Cymru a CCAUC; felly nid oedd modd cynnwys dyddiad penodol. Fodd bynnag, byddai'r Bwrdd yn anelu i gwblhau'r cynllun gweithredu llawn cyn diwedd 2021/22 os yn bosibl, gyda dyddiadau gweithredoedd dan ei reolaeth i'w cwblhau'n llawer cynt. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhawyd y byddai’r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu’n monitro rhoi’r cynllun gweithredu ar waith, gan adrodd i’r Bwrdd yn gyfnodol.<br><br>Yr argymhellion mwyaf heriol oedd y rhai’n ymwneud â deall y diwylliant a’r angen i’r sefydliad gadw at ei werthoedd. Ystyriwyd y byddai’r arolwg ymgysylltu gyda staff yn cyfrannu at y mesur hwn gan fod y sgorau yn arolwg 2018 yn uchel o ran y diwylliant. Byddai’r cwestiynau perthnasol o ganlyniadau arolwg 2020, i’w lansio ym mis Hydref, yn cael sylw.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYTUNO i fabwysiadu’r Siarter Llywodraethu.<br><br>CYMERADWYO cynllun gweithredu’r Brifysgol. | |
| **19.79** | **Ailddychmygu yn dilyn Covid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Fframwaith Ailddychmygu yn dilyn Covid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-ganghellor y Fframwaith a oedd wedi’i wreiddio yng ngwerthoedd y Brifysgol. Byddai’r ddogfen Fframwaith yn cael ei diweddaru’n rheolaidd a byddai’n tracio penderfyniadau’r Drefn Rheoli Aur wrth i ganllawiau a mesurau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru ac eraill ddod ar gael. Ers llunio’r Fframwaith roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chanllawiau ar gyfer gweithio’n ddiogel yn ystod Covid-19 mewn swyddfeydd a chanolfannau cyswllt, labordai a chyfleusterau ymchwil ac Addysg Uwch a chymorth i fyfyrwyr.<br><br>Ystyrir fod y sector Addysg Uwch yn meddu ar rôl allweddol yn darparu’r sgiliau ar gyfer yr adferiad economaidd.<br><br>Esboniodd y Diprwy Is-ganghellor rolau a gwaith cyffredinol y grŵp parhad economaidd a’r grŵp parhad gweithredol gyda mewnbwn gan y grŵp cynghori myfyrwyr. Roedd yr holl grwpiau hyn yn gweithio i egwyddorion y Fframwaith, yn cynnwys croestoriad o aelodau ac yn cyfathrebu gyda’i gilydd i sicrhau nad oedd ymdrechion yn cael eu dyblygu. Roedd y cynlluniau yn yr arfaeth yn cael eu hystyried yn rhai y gellir eu cyflawni yn realistig.<br><br>Y prif flaenoriaeth academaidd oedd diwygio’r rheoliadau academaidd i sicrhau nad oedd unrhyw niwed i fyfyrwyr yn unol â’r dull ledled y sector. Roedd y rheoliadau diwygiedig wedi cael derbyniad da gan fyfyrwyr a staff. Nawr roedd y grŵp parhad academaidd yn canolbwyntio ar sut fyddai pethau ym mis Medi ac mae awdit modiwlau cynhwysfawr yn cael ei gynnal, yn ogystal ag awdit o allu staff yng nghyswllt pecynnau digidol. Byddai datblygiad staff priodol yn digwydd yn ystod yr haf.<br><br>Byddai amserlenni unigolyn yn cael eu cynhyrchu erbyn diwedd Awst i’r myfyrwyr a fyddai’n glir ynghylch y gymysgedd o ddosbarthiadau ar y campws a gweithgareddau ar-lein. Y nod yw sicrhau dysgu cydlynus fel bod myfyrwyr sy’n medru bod yn bresennol ar y campws yn cyflawni’r deilliannau dysgu gofynnol, sut bynnag a lle bynnag maen nhw’n astudio.<br><br>Cadarnhawyd nad oes unrhyw gynlluniau i atal unrhyw raglenni cyfredol.<br><br>Gwnaed gwaith arwyddocaol i ymgysylltu gyda Chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio ac yn gyffredinol roeddynt wedi bod yn gymwynasgar a hyblyg ynghylch datrysiadau amgen ar gyfer lleoliadau a gweithgareddau labordy. Roedd peth gweithgarwch lleoliad wedi’i ohirio ond nid oedd yn bosibl gohirio hyn am rhy hir heb niwed i’r myfyrwyr. Crybwyllwyd efallai na fyddai partneriaid lleoliadau profiad gwaith yn barod i dderbyn myfyrwyr lleoliad mor | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflym ag y gall y Brifysgol addasu'r addysgu a gynigir.<br><br>Cadarnhaodd staff lywodraethwr sy'n addysgu ei fod wedi cael cefnogaeth i symud i addysgu ar-lein; a byddai'r pynciau peirianneg yn medru sicrhau y gellid gwneud gwaith yn ddiogel mewn gweithdai peirianneg ym mis Medi.<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar waith y grŵp parhad gweithredol a'r ffrydiau gwaith i baratoi'r adeiladau a rheoli mynediad, paratoi'r gweithlu a chyfleu hyder a llunio cynllun cadw pellter cymdeithasol. Roedd y cynlluniau dechreuol i'w hystyried gan y Drefn Rheoli Aur ar 1 Mehefin. Roedd y grŵp hefyd yn cynnwys amrediad o faterion eraill, yn cynnwys asesiadau risg iechyd a diogelwch a materion yswiriant, gyda'r nod o gynhyrchu canllawiau.<br><br>Amlinellodd Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr sut roedd y grŵp cynghori myfyrwyr yn ymgysylltu gyda gwaith y ddau grŵp parhad.<br><br>Byddai canlyniadau'r arolwg 'pyls' yn cael eu hystyried ar 1 Mehefin. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol yn gyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o staff yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth trwy gydol y sefyllfa coronafeirws.<br><br>Roedd yr aelodau o'r farn fod y Fframwaith wedi'i seilio ar werthoedd y Brifysgol yn diogelu staff a myfyrwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer llwyddiant. CADARNHAODD y Bwrdd y dull sy'n cael ei ddilyn, gan longyfarch Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r fframwaith. | |
| **19.80** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad Campws 2025 yn cynnwys diweddariadau ynghylch: apeliadau cynllunio, gwaredu'r tir dros ben ar safle Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin, gwaredu'r Chwarter Gogleddol, datblygiadau yn Xplore! a materion yswiriant eithriadol yn ymwneud â llety myfyrwyr.<br>(ii) Adroddad argymell dyfarnu'r contract ar gyfer Rhan 2 gwaith uwchraddio coridor 'B' a gwaith cysylltiedig.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r broses a ddilynwyd gyda thendro ar gyfer y gwaith rhan 2 yn nghoridor 'B', a arweiniodd at yr argymhelliad yn yr adroddiad. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi holi am y sgôr yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch a sgorio agos dau dendr o ran ansawdd ac roedd wedi derbyn eglurhad cynhwysfawr gan y cynghorydd caffael, ac roedd hi'n fodlon gyda'r eglurhad hwnnw.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO dyfarnu'r contract i Pave Away Ltd am y swm a nodwyd yn yr adroddiad. | |
| **19.81** | **Adolygiad Sicrwydd Tair Blynedd CCAUC** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad terfynol yn dilyn ymweliad CCAUC ym mis Chwefror 2020 i gynnal ei adolygiad sicrwydd ansawdd tair blynedd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| **19.82** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.83** | **Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar gylchlythyrau ac ymgynghoriadau CCAUC yn ymwneud â: datganiad sicrwydd ansawdd a safonau ychwanegol corff llywodraethu; effaith Covid-19 ar gyllido CCAUC a materion rheoleiddio ac adrodd; cyhoeddi data'r Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol ac ymgynghoriad CCAUC ynghylch monitro ymddygiad a pherfformiad sefydiad o ran derbyniadau 20/21.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **19.84** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **19.84.01 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 7 Mai wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **19.84.02 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 13 Mawrth wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **19.84.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Ebrill a 6 Mai 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 7 Ebrill a 6 Mai wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| **19.85** | **Adolygiad perfformiad y Cadeirydd** | |
| | Diolchodd y Cadeirydd i'r llywodraethwyr a'r tîm gweithredol am gymryd rhan yn y broses adolygu; ac am gefnogaeth y llywodraethwyr, oherwydd hebddo byddai ei rôl yn llawer anoddach. Yna gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-gadeirydd adroddiad llafar am y broses a ddilynwyd, y tri chwestiwn a ofynnwyd a'r deilliannau. Trafodwyd y deilliannau'n fanwl gyda'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadeirydd cyn y cyfarfod.<br><br>Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn, gyda'r Cadeirydd yn cael ei hystyried yn gefnogol a chymwynasgar gyda phrofiad rhagorol yn y sector, ynghyd â chwrteisi a chynhesrwydd. Tynnwyd sylw at ei hymrwymiad, ei chyfraniad a'i harddull arweinyddiaeth. Ardaloedd i'w datblygu a awgrymwyd oedd arwain y Bwrdd o ran codi ei broffil ymhlith y staff a'r myfyrwyr ac roedd y Cadeirydd wedi cytuno i weithio gyda'r Is-gadeirydd a'r Is-ganghellor ar hyn; a chynyddu proffil y Cadeirydd yn y gymuned fusnes, ac roedd yr Is-ganghellor wedi cytuno i gynorthwyo gyda hyn. Gwahoddwyd yr aelodau i wneud awgrymiadau ynghylch sut i godi proffil y Bwrdd a'u cyflwyno trwy Glerc y Bwrdd. Ystyriwyd fod y Cadeirydd yn cyfleu gwerthoedd y Brifysgol. Roedd copi o grynodeb y canlyniadau ar ffeil ar gael trwy'r Clerc ar gais i'r perwyl hynny.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |